**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **27 MEDI 2012** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 GORFFENNAF 2012** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2012 hyd at 31 Gorffennaf 2012.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2012:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---:|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 9 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 4 |
| Adolygiadau Grant | 5 |
| Archwiliadau Dilyniant | 1 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2012, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Llefrith i Ysgolion | Addysg | Adnoddau | B | Atodiad 1 |
| Recriwtio - Profion Hunaniaeth | Corfforaethol | | C | Atodiad 2 |
| Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Cyfrifeg | A | Atodiad 3 |
| Adroddiadau Eithriad y System Gyflogau | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | B | Atodiad 4 |
| Cyflogau - rhediadau BACS | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | A | Atodiad 5 |
| System Treth Di-Annedd - Adolygiad o Reolaethau Allweddol | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 6 |
| Tai gyda Chefnogaeth - Cyfrifon Imprest a Cyfrif y ty | Darparu a Hamdden | Preswyl a Dydd | B | Atodiad 7 |
| Cynllun Taith i Waith | Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | B | Atodiad 8 |
| Uned Trwyddedu | Rheoleiddio | Gwarchod y Cyhoedd | C | Atodiad 9 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliadau isod lle cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- ***Cyfrannu at baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol*** (Corfforaethol). Cyflwynwyd y datganiad drafft i'r Pwyllgor Archwilio ar 12 Gorffennaf.

- ***Cynnal Asesiadau Ariannol ar Gwmnïoedd - Fframwaith ACGCC PQQ2*** (Corfforaethol). Cynorthwywyd swyddogion o fewn Ymgynghoriaeth Gwynedd i asesu sefyllfa ariannol cwmnioedd oedd wedi gwneud cais i fod ar fframwaith contractwr Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbaeth Cymru.

- ***Cynllun "Potensial"*** (Economi a Chymuned). Prosiect Strategol Rhanbarthol yw prosiect Potensial sydd wedi'i ddatblygu a'i arwain gan Gyngor Gwynedd ac wedi'i noddi ar y cyd â thri awdurdod lleol arall, dau goleg addysg bellach a Gyrfa Cymru. Anelir y prosiect at y rhai hynny sy'n 11-19 mlwydd oed ac sydd mewn peryg o dorri cyswllt, tangyflawni, neu fethu yn yr ysgol a'r coleg. Telir grant tuag at y prosiect gan Lywodraeth Cymru, a gofynnir yn amodau arbennig y grant am gadarnhad ysgrifenedig gan y Noddwr, sef yr Adran Economi a Chymuned, bod unrhyw gaffael yn cael ei wneud trwy Buy4Wales lle bo'r angen yn unol â chanllawiau WEFO, a bod systemau yn eu lle i sicrhau fod y rhai sydd yn ymwneud â datblygu a rheoli Prosiect Potensial, a'r rhai sy'n gyfrifol am gynnal unrhyw ymarferiad caffael ar wahân i'r rhai a all fod yn tendro am y gwasanaethau fel a nodir yn y Cynllun Busnes. Gofynwyd i Archwilio Mewnol gynnal adolygiad i sicrhau fod y Partneriaid yn gweithio yn unol â'r amodau arbennig. Roedd hyn yn cwmpasu ymholi'r Partneriaid, gwirio unrhyw addasiadau i'r Cynlluniau Busnes ac adolygu gwariant a wnaethpwyd gyda chyflenwyr allanol. Bu modd cadarnhau fod y gwaith adolygu annibynnol a gwblhawyd gan Archwilio Mewnol yn dangos fod y gwasanaethau sy'n cael eu caffael wedi, neu am gael eu caffael, trwy Buy4Wales lle bo canllawiau WEFO yn mynnu hynny. Mae'r gwaith archwilio hefyd wedi dangos fod trefniadau mewn lle i sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol o fynd trwy'r broses caffael yn annibynnol o'r rhai sydd â photensial i geisio am y gwaith, yn unol â'r ail bwynt yn yr amodau arbennig.

- ***Cymhariaeth Cyfrifon Terfynol a Tendrau Gwreiddiol*** (Ymgynghoriaeth Gwynedd). Roedd Cynllun Archwilio Mewnol 2012/13 yn cynnwys yr archwiliad "Cymhariaeth Cyfrifon Terfynol a Tendrau Gwreiddiol". Bwriad yr archwiliad oedd archwilio cyfrifon terfynol gan gymharu pris terfynol contractau gyda phrisiau'r tendr ar gyfer contractau a weinyddir gan Ymgynghoriaeth Gwynedd. Amcan yr archwiliad oedd profi hypothesis fod swm cyfrif terfynol contractau sy'n cael eu dyfarnu ar sail pris ac ansawdd yn agosach at y pris tendr nag y mae tendrau a ddyfarnwyd ar sail pris yn unig. Yn ystod yr archwiliad, adolygwyd cyfanswm o 25 o gontractau. Roedd y cytundebau hyn i gyd wedi eu gosod ar sail pris, gan eu bod wedi eu dewis oddi ar Fframwaith Gogledd Cymru, gydag agweddau ansawdd wedi eu hystyried wrth lunio'r fframwaith. Nid oedd modd felly profi'r hypothesis gan nad oedd cytundebau a ddyfarnwyd ar sail pris ac ansawdd ar gael i'w harchwilio. Wrth gymharu prisiau y cytundebau a ddyfarnwyd ar sail pris yn unig, gwelwyd nad oedd patrwm yn yr amrywiant rhwng y pris tendr a'r cyfrif terfynol.

## 2.3 Grantiau

2.3.1 Adolygwyd gweithdrefnau gweinyddol y grantiau canlynol yn ystod y cyfnod:

- Grant Estyniad Rhaglen Datblygu Meddwl ac Asesu ar Gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru *(Addysg)*
- Grant Refeniw 2011-12 y Cyfnod Sylfaen *(Addysg)*
- Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd *(Addysg)*
- Grantiau Clybiau Ieuenctid - Grant Refeniw *(Economi a Chymuned)*
- Grant Pecyn Camau Cyntaf *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*

2.3.2 Nid yw'r ffaith fod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r grantiau yma yn golygu na fydd archwilwyr allanol o Swyddfa Archwilio Cymru neu gyrff eraill yn cynnal archwiliadau o'r grantiau yma hefyd. Fodd bynnag, disgwylir fod y gwaith y mae Archwilio Mewnol, a'r sicrwydd y bu'n bosib ei ddatgan am yr amgylchedd reolaeth, yn golygu y bydd angen llai o waith archwilio gan y cyfundrefnau hyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu lleihad yn y ffioedd y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei dalu am archwiliadau allanol.

## 2.4 Archwiliadau Dilyniant

2.4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Statws Cyflogaeth | Corfforaethol | - | **Derbyniol** |

2.4.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.4.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2012**

Comisynu ar y Cyd gyda BILIPBC
Diogelwch TG mewn Ysgolion
Recriwtio – Profion Hunaniaeth

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2013**

Diogelwch Gwybodaeth
Lleihau Baich Gwaith Athrawon
Uned Trwyddedu

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Awst 2012.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Cardiau Credyd Barclaycard *(Corfforaethol)*
- Swyddogaethau yn y Broses Monitro Gwariant Cyfalaf *(Strategol a Gwella)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Grant Blas am Oes *(Addysg)*
- Grant Gofal Plant Ysgolion Ffocws Gymunedol *(Addysg)*
- Grant Refeniw 2011-12 y Cyfnod Sylfaen *(Addysg)*
- Penodi Ymgynghorwyr Rheoli, Adran Addysg *(Addysg)*
- Penodiadau Llanw *(Addysg)*
- Gweinyddu Benthyciadau Car *(Adnoddau Dynol)*
- Asiantaeth Cefnffyrdd - anfonebau rhwng cynghorau *(Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- Prosiect "Y Gweithlu" *(Corfforaethol)*
- Budd-daliadau Dewisol *(Cyllid)*
- Rheolaethau TG Systemau Treth Cyngor, Budd-daliadau a Treth Di-annedd (Dilyniant i archwiliad SAC) *(Cyllid)*
- System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- System Gyflogau - Didyniadau Treth ac Yswiriant Cenedlaethol *(Cyllid)*
- System Gyflogau - Paramedrau ac Algorithmau *(Cyllid)*
- Goruchwyliaeth Rheolwyr ar Ddyletswydd *(Darparu a Hamdden)*
- Rheolaeth Cronfeydd Answyddogol *(Darparu a Hamdden)*
- Trefniadau Gwarchod rhag Legionella *(Gofal Cwsmer)*
- Gwasanaeth Broceriaeth *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwireddu Arbedion *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Llety i Bobl Ifanc yn gadael gofal *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol - Cywirdeb Data Craidd *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Trefniadau Contractio Gwasanaethau Cymdeithasol *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Dilyniant - Gorchmynion Ffyrdd *(Not Yet Assigned)*
- Gweithdai - Goruchwyliaeth Iechyd a Diogelwch *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Penodi Contractwyr Peirianyddol *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2012 i 31 Gorffennaf 2012, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# GWASANAETH LLEFRITH I YSGOLION
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Gwirio trefniadau gweinyddu'r cynllun cymhorthdal llefrith i ysgolion fel y gellid sicrhau na fydd y cymhorthdal yn cael ei atal am gyfnod.

Cwmpas yr Archwiliad
Edrychwyd ar geisiadau am y cyfnod tymhorau Haf a Hydref 2011 gan mai yn ystod tymor y Gwanwyn 2011 y cyflwynwyd trefniant newydd i geisio gwella cywirdeb y wybodaeth sy'n cael ei dderbyn gan yr ysgolion. Edrychwyd ar geisiadau llefrith ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif bwyntiau a godwyd yn yr archwiliad yma oedd bod camgymeriadau ym mhob taflen PY17 un ysgol yn y sampl ac nad yw'r ffigyrau yn yr archebion ac anfonebau yn cyd-fynd â'r daflen.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Gwasanaeth Llefrith i Ysgolion gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid cysylltu neu ymweld â'r ysgol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ac yn deall y trefniant briodol ar gyfer cofnodi gwybodaeth ar gyfer hawlio'r arian grant llefrith.**

- **Dylid sicrhau fod yr aelodau o staff sy'n gyfrifol o lenwi'r ffurflenni PY17 yn ymwybodol mai y gwir ffigwr ar gyfer y nifer o lefrith sydd wedi ei yfed, nid ei brynu, sydd angen ei nodi. Dylai'r ffigwr ar y PY17 gyd-fynd â chofnod yn yr ysgol o'r disgyblion sy'n derbyn llefrith.**

- **Dylid hysbysu'r ysgolion i addasu'r copi pinc o'r archeb llefrith petai unrhyw newid ac yna ei lofnodi ar ddiwedd yr wythnos i gadarnhau cyfaint y llefrith a gyflenwyd.**

# RECRIWTIO - PROFION HUNANIAETH
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau addas ar gyfer cynnal profion hunaniaeth yn bodoli ar gyfer penodiadau newydd i'r Cyngor ac yr adlynir at y trefniadau.

Cwmpas yr Archwiliad

Sicrhau bod trefniadau wedi cael eu sefydlu ar gyfer gynnal profion hunaniaeth a chynnal gwaith prawf drwy wirio sampl o 48 o benodiadau newydd ers Ebrill 2011 a sicrhau bod prawf hunaniaeth wedi ei gynnal sydd yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedigrwydd 2006.

Prif Ddarganfyddiadau

Archwiliwyd sampl o ffeiliau personél swyddogion a benodwyd o'r newydd yn y flwyddyn ariannol 2011/12. O'r sampl a ddetholwyd roedd 25 o'r ffeiliau yng ngofal Gwasanaethau Cefnogol - Gweinyddiaeth Personél. Gwelwyd mai 10 o'r ffeiliau hyn yn unig oedd yn cynnwys tystiolaeth bod profion hunaniaeth wedi cael eu cynnal. Yn ogystal, roedd y llythyrau a anfonwyd i ymgeiswyr yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth anghywir - Deddf Noddfa a Mewnfudo 1996 yn hytrach na Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006.

Ar gyfer gweddill y sampl, derbyniwyd eglurhad gan y swyddogion oedd â chyfrifoldeb am reoli a gweinyddu ffeiliau personél o fewn y gwasanaethau. Cadarnhaodd y swyddogion hyn nad oedd copïau o brofion hunaniaeth yn cael eu cadw ar y ffeiliau personél a mynegodd rhai o'r swyddogion nad oeddynt yn credu bod y profion yma yn eu cynnal.

Ymddengys o'r archwiliad nad oes canllawiau clir wedi eu sefydlu i reolwyr na'r swyddogion gweinyddu ffeiliau personél ar y trefniadau, cyfrifoldebau a'r pwysigrwydd o weithredu a chynnal profion hunaniaeth. O ganlyniad i'r diffyg tystiolaeth a chanllawiau, mae'r archwiliwr o'r farn nad oes gan y Cyngor reolaethau priodol mewn lle ar gyfer rheoli'r risg o benodiadau anghyfreithlon.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn Recriwtio - Profion Hunaniaeth gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r llythyrau personél cael eu diweddaru i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r newid mewn deddfwriaeth a sicrhau bod hyn yn cael ei sefydlu ar draws y Cyngor.**
- **Dylid sicrhau bod y canllawiau ymarfer da ar gyfer rheolwyr mewn perthynas â threfniadau "Recriwtio, Dewis a Phenodi" sydd yn cynnwys y trefniadau ar gyfer gwirio tystiolaeth o'r hawl i weithio yn y DU yn cael eu gosod ar y fewnrwyd.**
- **Dylid hysbysu'r camau a ddylid eu cymryd cyn penodi swyddog newydd, gan gynnwys camau cynnal profion hunaniaeth, h.y. yr angen i wirio hunaniaeth, darparu llungopi wedi ei ardystio ynghyd ag amlygu'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd pwy y dylid cynnal y gweithdrefnau yma.**

## PRIF SYSTEM GYFRIFO - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilwydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

**Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol.**

Caiff y prif system gyfrifo ei ystyried yn "system ariannol pwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Cwmpas yr Archwiliad

Bydd yr adolygiad yma yn canolbwyntio ar reolaethau cynnal y prif system gyfrifo a thrafodion 2011/12 gan gynnwys y prosesau diweddu blwyddyn ac agor 2012/13.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod y rheolaethau allweddol yr adolygwyd mewn lle ar gyfer y prif system gyfrifo. Gwelwyd bod mesurau mewn lle i wahaniaethu dyletswyddau yn seiliedig ar rolau, gwasanaethau a lefelau awdurdodi. Mae hawliau mynediad i'r system yn cael ei rheoli yn ganolog.

Mae gweithdrefnau mewn lle i fonitro cyllidebau ac adrodd am amrywiadau. Nodwyd rhai esiamplau o gyllidebau yn cael eu mewngofnodi ar ôl y terfyn amser oedd wedi ei bennu gan weinyddwyr y system ond 'roedd pob eitem yn ein sampl wedi eu mewngofnodi erbyn adeg monitro gwariant y chwarter cyntaf.

Mae prosesau diwedd cyfnod mewn lle i sicrhau cywirdeb trosglwyddiadau balansau a thrafodion. Mae gweithdrefnau mewn lle i gysoni'r system gyda chyfriflenni banc, trosglwyddiadau o systemau bwydo a chyfrifon rheolaethol er mwyn sicrhau cywirdeb a phriodoldeb.

### Barn yr Archwiliad

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn**

# ADRODDIADAU EITHRIAD Y SYSTEM GYFLOGAU
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod yr Uned Cyflogau yn cynhyrchu ac adolygu adroddiadau eithriad safonol er mwyn adnabod a gweithredu ar unrhyw amrywiaeth arwyddocaol mewn cyflog, sicrhau bod swyddogion yr Uned Cyflogau wedi derbyn hyfforddiant a bod canllawiau ar gael er mwyn cynnal y gwiriadau.

Cwmpas yr Archwiliad
Ymholi pa fath o adroddiadau eithriad mae'r Uned Cyflogau yn eu cynhyrchu a gwirio bod paramedrau synhwyrol wedi eu sefydlu ar gyfer yr adroddiadau. Gwirio os y bu i amrywiannau arwyddocaol gael eu hadnabod a bod gweithrediad prydlon ar unrhyw anghysondebau. Ymholi'r math o hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu i swyddogion yr Uned Cyflogau ynghyd â gwirio bod y trefniadau wedi eu hymgorffori mewn canllawiau ysgrifenedig a sicrhau eu hargaeledd i staff.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd fod gan yr Uned Gyflogau system sy'n cynhyrchu adroddiadau eithriad yn awtomatig yn dilyn rhediad cyflogres, gyda'r adroddiadau yn cael eu cadw'n electronig. Ar gyfer rhai o'r adroddiadau eithriad hyn, cafodd y paramedrau eu sefydlu gan ddarparwr y system gyflogau, ond fe welodd yr archwiliwr fod rhai adroddiadau wedi derbyn addasiad i'w paramedrau er mwyn cyrraedd anghenion y Cyngor. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth TG, ar gais yr Uned Gyflogau wedi sefydlu adroddiadau eithriad ychwanegol er mwyn bodloni anghenion pellach yr Uned ac yn dilyn argymhellion a wnaethpwyd gan Archwilio Mewnol mewn archwiliadau yn y gorffennol.

Mae'r ffurflen "Payroll Checking Document" wedi'i sefydlu gan yr Uned Gyflogau, yn nodi'r holl adroddiadau eithriad sy'n ddisgwyliedig i swyddogion eu hadolygu wedi rhediad cyflogres. Mae'n ddisgwyliedig i swyddogion gwblhau'r ffurflen a'i harwyddo i gadarnhau'r weithred. Ar gyfer y sampl a ddetholwyd ar gyfer yr archwiliad, gwelwyd bod y mwyafrif o'r ffurflenni wedi'u cwblhau'n gyflawn gan swyddogion yr Uned Gyflogau ond fe ymddangosodd ambell achos ble nad oedd y ffurflen wedi'i chwblhau'n gyflawn a'i harwyddo gan swyddogion a goruchwylwyr.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Adroddiadau Eithriad y System Gyflogau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid diweddaru rhan 2.7 o'r llawlyfr cyflogau i adlewyrchu anghenion cyfredol yr Uned mewn perthynas â gwirio adroddiadau eithriad yn dilyn rhediad cyflogres.**

- **Dylid atgoffa Swyddogion a Goruchwylwyr yr Uned Gyflogau o'r angen i gwblhau'r ffurflen "Payroll Checking Document" yn gyflawn wedi iddynt wirio adroddiadau eithriad yn dilyn rhediad cyflogres.**

# CYFLOGAU - RHEDIADAU BACS
## Cyllid

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>

Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r trefniadau sy'n bodoli ar gyfer cyflwyno a throsglwyddo rhediadau BACS yr amrywiol gyflogresi.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>

Bydd yr archwiliad yn cynnwys trafod gyda swyddogion perthnasol ac adolygu dogfennaeth a threfniadau'r Uned Gyflogau a'r Uned Technoleg Gwybodaeth.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>

Darganfuwyd bod amserlen gytunedig wedi'i sefydlu ar gyfer yr amrywiol gamau ar gyfer cwblhau rhediadau BACS cyflog, gyda'r Uned Gyflogau a'r Uned TG yn cadarnhau y cynhaliwyd trafodaeth cyn dechrau'r flwyddyn ariannol ar gyfer sefydlu'r amserlen. Yn ogystal, cadarnhawyd y cafodd y mater o effaith gwyliau statudol ei ystyried wrth sefydlu'r amserlen.

Esboniodd yr Uned Gyflogau a'r Uned TG bod ganddynt drefniadau mewn lle i sicrhau parhad gwasanaeth mewn cyfnod o absenoldeb swyddogion i sicrhau bod cyflogau'n cael eu talu'n amserol.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Cyflogau - rhediadau BACS gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

## SYSTEM TRETH DI-ANNEDD - ADOLYGIAD O REOLAETHAU ALLWEDDOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilwydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

**Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol.**

Caiff y system Treth Di-Annedd ei ystyried yn "system ariannol pwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod biliau Treth Di-Annedd wedi cael eu gosod yn gywir ac yn unol â'r gwerthoedd trethiannol wedi eu gosod gan y Swyddfa Brisio a bod prosesau priodol ar gyfer ei gasglu, cofnodi a monitro y taliadau.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu a phrofi bod canllawiau, cofnodion a'r gweithdrefnau priodol mewn lle ar gyfer rheoli, casglu a chofnodi Treth Di-Annedd 2011-12.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod gweithdrefnau a phrosesau priodol mewn lle ar gyfer holl reolaethau allweddol y system treth di-annedd. Darganfuwyd bod cysoniadau priodol yn cael eu cynnal i sicrhau cywirdeb Gwerthoedd Trethiannol sefydliadau yn y system, ynghyd â'r nifer o filiau. Gwiriwyd fod paramedrau'r system yn unol â'r Deddfwriaeth a'r arweiniad perthnasol ar gyfer gweithredu'r lluosrif cyfrifo biliau a gweithredu gostyngiadau, lle'n berthnasol. Esboniwyd fod trefn mewn lle i adolygu'r achosion ble mae gostyngiad drwy ddisgresiwn yn cael ei weithredu a bod prosesau priodol mewn lle i gysylltu â sefydliadau sydd yn methu taliadau a'u cyfeirio i broses adennill os nad yw hynny yn llwyddiannus mewn adfer dyledion.

Mae gwahaniad dyletswyddau yn weithredol yn y broses creu ad-daliadau a gwelwyd bod trywydd archwilio llawn yn amlygu gweithrediadau unigolion yn y maes yma ac eraill. Ymholwyd beth oedd y trefniadau cysoni incwm a gwelwyd bod cysoniadau'n cael eu cynnal ar sail dyddiol, misol a blynyddol a bod trefniadau monitro perfformiad wedi eu sefydlu ac yn weithredol.

### Barn yr Archwiliad

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn System Treth Di-Annedd - Adolygiad o Reolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# TAI GYDA CHEFNOGAETH - CYFRIFON IMPREST A CYFRIF Y TY
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod trefniadau cyfrif imprest a chyfrif y tŷ ar gyfer Tai gyda Chefnogaeth yn briodol ac yn unol â rheolau a gweithdrefnau'r Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio'r cyfrif imprest a chyfrifon y tai yn 2011/12 yn ôl y cyfriflyfr ariannol. Dewiswyd sampl o bump tŷ oddi dan y gwasanaeth Tai gyda Chefnogaeth, sef 106 Lon Abererch (Pwllheli), 25 Cefn Hendre (Caernarfon), 6 Ffordd Llanberis (Caernarfon), 24 Cefn Cadnant (Caernarfon) ac 4 Bryn Rhos (Caernarfon).

Prif Ddarganfyddiadau
Yn dilyn ail - strwythuro yn y gwasanaeth gwelir mai tri Rheolwr Tai a Chefnogaeth sydd bellach yn gyfrifol am y tai ar draws Gwynedd. Ar adeg yr archwiliad gwelir mai dau o'r Rheolwyr oedd mewn swydd a bod yr adran wedi penodi Rheolwr arall yn dilyn ymddiswyddiad. Darganfuwyd bod trefniadau anghyson ar draws y Cartrefi yn ymwneud â chyfrifon oddi fewn y tai oherwydd bod nifer o gyfrifon gwahanol yn bodoli ar gyfer y cleientiaid a bod rhai ohonynt yn cael ei rheoli gan yr Uned Rheoli Asedau Cleientiau. Gwelir nad oedd gan y tai gyfrifon tŷ, sydd yn cynyddu'r risg o anghysondeb a chamgymeriadau oddi fewn y cartrefi. Gwelir bod materion yn codi gyda'r cyfrifon imprest yn ystod yr archwiliad sef ceisiadau yn mynd i ddyled ac mai dim ond un swyddog oedd gyda'r hawl i arwyddo'r ceisiadau mewn ambell i dy. Oherwydd hyn, dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Tai gyda Chefnogaeth - Cyfrifon Imprest a Cyfrif y ty gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid cadw cofnod wedi ei ddyddio a'i arwyddo o bwy sy'n newid côd y diogellau yn y tai.**
- **Dylid sicrhau bod Rheolwyr y tai yn ymwybodol o'r lefelau cadw arian parod y polisi yswiriant, bod copi o'r polisi yswiriant yn cael ei gadw yn y tai a bod yn cael cofnod fod staff yn darllen a deall y polisi hwn a'i bod yn glynu ato yn y dyfodol.**
- **Dylid sicrhau mewn absenoldeb Rheolwyr bod swyddog cyfrifol a pherthnasol arall yn gwirio yr adroddiadau cyllid y tai gyda chefnogaeth.**
- **Dylid sicrhau bod swyddog annibynnol yn adolygu a llofnodi cofnodion ar hap ar gyfer cyfrifon ariannol.**
- **Dylid sicrhau bod cofnod ysgrifenedig o gyfraniadau'r cleientiaid i gyfrifon y tŷ a bod y rhain wedi eu cytuno gyda'r cleientiaid / apwyntydd.**
- **Dylai'r swyddogion addas gyfarfod a chytuno ar y ffordd ymlaen i awtomeiddio'r broses o dalu biliau chyfleustodau a dod i benderfyniad pendant ar gael cyfrif y tŷ.**

# CYNLLUN TAITH I WAITH
## Economi a Chymuned

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Sicrhau fod trefniadau gweinyddu'r prosiect Taith i Waith yn briodol ac yn unol â gofynion WEFO.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Gwirio trefniadau gweinyddu'r prosiect gan sicrhau fod y trefniadau'n cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant. Gwirio hefyd fod y rheolaethau disgwyliedig mewn lle i liniaru unrhyw risg sy'n ymwneud â grant o'r fath.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Gwelwyd fod trefniant taclus a threfnus ar gyfer gweinyddu'r prosiect yma gyda'r ddarpariaeth briodol wedi ei baratoi ar gyfer y mwyafrif o'r gofynion yn nhelerau ac amodau'r grant. Fodd bynnag mae ambell i ofyn yn y telerau wedi ei fethu, megis bod angen cynnwys canran yr arian grant a ddefnyddiwyd i dalu am asedau a beth fydd yn digwydd i'r asedau ar ddiwedd y prosiect. Byddai hefyd yn fanteisiol petai'r Adran Economi a Chymuned a'r Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Mae'r amodau arbennig sydd wedi eu cynnwys yn nhelerau'r grant yn nodi'r angen i gynnwys yr elfen cynaliadwyedd amgylcheddol o fewn yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu trwy'r grant. Er bod peth cymhlethdod ynglŷn â sut i sicrhau hyn mewn modd sy'n ddealladwy i'r cleientiaid, mae gwaith yn mynd yn ei flaen i geisio sicrhau hyn.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Cynllun Taith i Waith gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod cofnod o gyfrifoldebau a disgwyliadau sydd wedi eu cytuno arno ar gyfer yr Adran Economi a Chymuned a'r Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, neu fod cytundeb lefel gwasanaeth yn cael ei sefydlu.**

- **Dylid trafod gyda'r Grŵp Rhanbarthol am addasu rhan o'r ffurflenni sy'n gofyn am ganiatâd i rannu gwybodaeth fel bod y cleient yn nodi Ia neu Na yn hytrach na rhoi tic yn y blwch ac felly'n agored i gael ei lenwi ar ôl i'r ffurflen gael ei llofnodi gan berson anawdurdodedig.**

- **Dylid sicrhau fod y rhestr asedau'n cynnwys yr oll fanylion a ofynnir amdano yn nhelerau ac amodau'r grant.**

- **Dylid cysylltu â WEFO i gael gwybod beth y dylid gwneud ag asedau sydd wedi ei ariannu gan y grant unwaith bydd y prosiect yn dod i ben.**

# UNED TRWYDDEDU
## Rheoleiddio

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau o fewn yr Uned Gwarchod y Cyhoedd yn ddigonnol ac yn ddibynadwy er mwyn prosesu ceisiadau a ffioedd trwyddedau yn unol â rheolau a safonau'r diwydiant.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio trefniadau'r gwasanaeth ar gyfer paratoi, prosesu, gweithredu a chofnodi'r trwyddedau a hynny ar gais Rheolwr Systemau Gweithredol a'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 18 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 7 o'r rheolaethau hyn. Y prif wendidau a welwyd yn ystod yr archwiliad oedd nad oedd posibl rhoi dibyniaeth gyflawn ar y gweithdrefnau sydd mewn lle o fewn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar hyn o bryd ac nad yw'r gwasanaeth wedi darparu ar gyfer y newid yn y Ddeddf Trwyddedau 2003 a ddaeth i rym ar 25 Ebrill 2012. Mae'r gwasanaeth yn y broses o ddatblygu'r system Civica (Flair).

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Uned Trwyddedu gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod datganiadau o'r polisïau perthnasol i Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 yn cael eu dyddio gyda dyddiad yr adolygwyd a chyhoeddwyd y polisi.**
- **Dylid sicrhau fod datganiad o'r Polisi Gamblo ar gael ar wefan gyhoeddus y Cyngor.**
- **Dylid sicrhau fod cyfanswm y ffioedd a'r dyddiad y derbyniwyd yn cael eu mewnbynnu i'r system "Civica".**
- **Lle mae taliad a dderbynnir yn cynnwys mwy na un ffi dylid sicrhau fod modd gweld cost pob eitem.**
- **Dylai'r ffioedd diwygiedig gael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Trwyddedu Canolog neu Arweinydd Portffolio'r Adran.**
- **Dylai'r rhestr ffioedd wahaniaethu rhwng cost gwiriad CRB a'r ffi am weinyddu'r cais.**
- **Dylai'r Swyddogion Trwyddedu gynhyrchu adroddiadau o'r system Civica (Flair) yn rheolaidd.**
- **Dylid adolygu'r adroddiadau a chywiro unrhyw gamgymeriad a amlygwyd er mwyn sicrhau fod system Civica (Flair) yn gyfredol.**
- **Dylid defnyddio'r adroddiadau i atgoffa deilwyr y trwyddedau o'r angen i adnewyddu'r drwydded berthnasol.**